Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Steve George
Clerc
Pwyllgor Diwylliant, Y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

27 Tachwedd 2017

Annwyl Glerc,

**Nodyn briffio ar ofal plant ac addysg gynnar cyfrwng Cymraeg.**

Mae Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at bwysigrwydd y blynyddoedd cynnar i wireddu'r nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Gyda hynny mewn golwg cyflwynais y nodyn briffio hwn ar ofal plant ac addysg gynnar cyfrwng Cymraeg i sylw Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg fel cyngor ysgrifenedig o dan Adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r nodyn briffio yn trafod pwysigrwydd y sector gofal plant ac addysg gynnar o ran creu siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n debygol o ddefnyddio'r iaith yn y dyfodol. Mae'r nodyn yn trafod y sefyllfa gyfredol o ran gofal plant yng Nghymru, ac yn amlinellu'r sefyllfa o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn benodol. Trafodir y cyd-destun polisi, yn enwedig ymrwymiad y Llywodraeth i gynnig 30 awr o ofal plant am ddim i bob plentyn 3-4 sydd a'u rhieni mewn gwaith, a gweledigaeth y Llywodraeth i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Casgliad y nodyn yw bod potensial arwyddocaol i integreiddio amcanion y polisïau uchod. Pan fydd y 'Cynnig 30 Awr' yn dwyn ffrwyth, bydd yn arwain at gynnydd mawr yn y galw am ofal plant ledled Cymru, ac yn sgil hynny yn cynnig cyfle amserol i gymryd camau breision er mwyn sicrhau bod miliwn o siaradwyr

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org

Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cymraeg erbyn 2050. Er mwyn gwireddu'r potensial yma, fodd bynnag, mae amryw o argymhellion y dylid eu hystyried:

- Mae angen i'r Llywodraeth osod ystyriaethau am yr iaith Gymraeg a'i gweledigaeth ar gyfer 2050 yng nghanol y broses o gynllunio, ariannu a gweithredu ei chynlluniau ynglŷn â gofal plant ac addysg gynnar. Er bod cynlluniau ac ymrwymiadau cyffredinol yn cael eu hamlinellu yn rhaglen waith 2017-2021 Cymraeg 2050, nid oes cynlluniau pendant a materol ynglŷn â'r ffordd ymlaen ac mae peryg y bydd cyfle euraidd yn cael ei golli i gymryd camau hynod arwyddocaol o ran dyfodol yr iaith Gymraeg.

- Dylai'r Llywodraeth ddefnyddio Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSCAau) fel fframwaith ar gyfer cydlynu gweithredoedd y Llywodraeth, Awdurdodau Lleol, a darparwyr gofal plant. Byddai cynnwys deilliant penodol yn y CSCAau ar gyfer twf yn y sector gofal plant ym mhob ardal yn ffordd o sicrhau bod strategaethau lleol gofal plant yn cyd-fynd â dyheadau a thargedau cenedlaethol y llywodraeth o ran darpariaeth Cymraeg. Byddai twf yn y sector yma yn cyfrannu'n arwyddocaol at gynyddu niferoedd ar draws y sector addysg cyfrwng Cymraeg yn y tymor hir.

- Er mwyn llunio strategaethau cenedlaethol a lleol effeithiol, ac er mwyn gwerthuso effaith a llwyddiant y strategaethau hyn yn y dyfodol, mae'n hanfodol cael data dilys a dibynadwy. Mae angen i'r Llywodraeth arwain y gwaith o ddiwygio'r ffyrdd o gasglu a rhannu data am ofal plant, er mwyn sicrhau bod cynlluniau a strategaethau lleol a chenedlaethol wedi'u llunio ar sail gwybodaeth y gellid ymddiried ynddo.

Hyderaf bydd y nodyn a'r argymhellion uchod o ddiddordeb i chi, a gofynnaf yn garedig i chi rannu'r nodyn ag aelodau'r Pwyllgor Diwylliant, Y Gymraeg a Chyfathrebu.

Yn gywir

**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg